Dyro dy gariad i'n clymu

Caneuon Ffydd: Rhif 871

Dyro dy gariad i'n clymu,
dy gariad fyddo'n ein plith;
dyro dy gariad i Gymru,
bendithion gwasgar fel gwlith:
dysg inni ddeall o'r newydd
holl ystyr cariad at frawd;
dyro dy gariad i'n clymu,
dy gariad di.

Mewn byd o newyn a thristwch
dysg i ni rannu pob rhodd,
mawr yw dy gariad di atom,
dysg i ni garu'r un modd:
dysg inni ddeall o'r newydd
holl ystyr cariad at frawd;
dyro dy gariad i'n clymu,
dy gariad di.

Gwna ni yn lampau d'oleuni
lle byddo t'wyllwch a thrais,
gwna ni'n gyhoeddwyr dy obaith
fel clywo'r bobloedd dy lais:
dysg inni ddeall o'r newydd
holl ystyr cariad at frawd;
dyro dy gariad i'n clymu,
dy gariad di.

1 DAVE BILBROUGH, *cyf.* CATRIN ALUN
2, 3 SIÔN ALED

MYFYRDOD

Dyma gyfuniad ffres yn yr emyn hwn o drosiad gan Catrin Alun a phenillion newydd gan Siôn Aled. Un pennill sydd yn y gwreiddiol, 'Let there be love shared among us', gan Dave Bilbrough, a defnyddir hwnnw'n sail ar gyfer adeiladu emyn cyflawn yn y Gymraeg gyda'r rhan olaf o'r pennill cyntaf yn cael ei hailadrodd yn y tri phennill.

Cawn gyfeiriad uwchben y gwreiddiol sy'n ein cyfeirio at 1 Ioan 4:7, sy'n nodi fel y dylai cariad Duw ennyn ynom ninnau gariad brawdol a chariad tebyg i'w gariad ef ei hun: 'Ffrindiau annwyl, gadewch inni garu ein gilydd, oherwydd mae cariad yn dod oddi wrth Dduw, mae pawb sy'n caru fel hyn wedi ei eni'n blentyn i Dduw ac yn adnabod Duw' (Beibl.net). Dyma'r cariad sy'n ein clymu ac yn ein dysgu ni 'i ddeall o'r newydd holl ystyr cariad at frawd'.

Mae thema cariad yn llifo trwy lythyrau Ioan i gyd. Pam fod angen pwysleisio cymaint ar gariad at ein gilydd tybed? Mae'n rhaid bod Ioan yn gweld ei angen ymhlith Cristnogion y ganrif gyntaf, ac mae'r angen yn parhau heddiw.

Pam fod angen cymhelliad dros garu? meddech chi – mae'r teimlad yn ddigon! Ond allwn ni ddim dibynnu ar ein teimladau bob tro – os o gwbl! Efallai ein bod yn teimlo'n llawn cariad brawdol un diwrnod, ond bod hwnnw'n troi yn annifyrrwch ac yn gasineb yn fuan iawn wrth inni gael ein cyffwrdd gan amgylchiadau o'n cwmpas. Dyna pam mae Ioan yn datgan *gorchymyn* i ni garu: 'Dyma ei orchymyn: ein bod i gredu yn enw ei Fab ef, Iesu Grist, a charu'n gilydd' (1 Ioan 3:23). Nid awn ymhell iawn fel Cristnogion yn y byd os byddwn yn dibynnu ar ein teimladau i'n harwain ni. Cariad yw'r prawf o'r bywyd Cristnogol.

Er mwyn para i garu, mae'n rhaid gwybod ymhle mae ei ffynhonnell, inni gael mynd yn ôl ati a drachtio'n helaeth ohoni. Olrheinia Ioan gariad yn ôl at ei darddiad yn natur Duw, 'cariad yw Duw' (1 Ioan 4:8), a'r modd y datguddiwyd y cariad hwnnw inni yng nghroes Crist. Dyma sut y gwnaeth Duw ddangos ei gariad tuag atom: anfonodd 'ei unig Fab i'r byd, er mwyn i ni gael byw drwyddo ef' (1 Ioan 1:9). Yn y fan honno y mae ein cariad ninnau'n cael ei danio ac y dysgwn 'garu'r un modd'.

Yn ein pennill olaf fe welwn oleuni cariad yn trechu tywyllwch gelyniaeth a thrais. Yn ogystal â bod yn 'gariad', mae Duw hefyd yn 'oleuni' (1 Ioan 1:5). Cofiwn fod: 'Y sawl sy'n dweud ei fod yn y goleuni, ac yn casáu ei gydaelod, yn y tywyllwch y mae o hyd' (1 Ioan 2:9). Datguddiwn wir natur ein perthynas â Duw yn ein perthynas â phobl eraill. Neges o gariad a goleuni a gobaith sydd gennym ar gyfer y rhai yr ydym mewn perthynas â nhw, a'r rheiny yn tarddu yn unig o'r cariad a'r goleuni a'r gobaith sydd oddi wrth Dduw ac yn cael ei ddatguddio inni yng Nghrist.

GWEDDI

O Dad, yr hwn wyt yn gariad i gyd, rwy'n dechrau deall o'r newydd holl ystyr cariad at frawd. Paid â gadael imi ymwneud yn unig â'r rhai o'm cwmpas, ond gad imi eu caru nhw. 'Dyro dy gariad i'n clymu, dy gariad di.' Er mwyn Iesu. Amen.